## ATODLEN 3

Rheoliad 2(2)(a)

### Manyleb sudd ffrwythau o ddwysfwyd

**1.** Sudd ffrwythau o ddwysfwyd yw'r cynnyrch a geir drwy ailgyfansoddi sudd ffrwythau wedi ei ddwysáu â dŵr yfadwy sy'n bodloni'r meini prawf a nodir yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 98/83/EC.

**2.** Mewn achos lle mae sudd ffrwythau o ddwysfwyd yn cael ei weithgynhyrchu o ffrwyth a bennir yng ngholofn 2 o Atodlen 13, rhaid i gynnwys solidau toddadwy y cynnyrch gorffenedig fod â lefel Brix sydd o leiaf o'r lefel a bennir yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 3 o'r Atodlen honno, fel y'i darllenir ynghyd â Nodiadau'r Atodlen honno.

**3.** Mewn achos lle mae sudd ffrwythau o ddwysfwyd yn cael ei weithgynhyrchu o ffrwyth sydd heb ei bennu yng ngholofn 2 o Atodlen 13, rhaid i gynnwys solidau toddadwy y cynnyrch gorffenedig fod â lefel Brix y sudd fel y'i tynnwyd o'r ffrwyth a ddefnyddiwyd i wneud y dwysfwyd.

**4.** Rhaid i'r cynnyrch gael ei baratoi drwy brosesau addas sy'n cadw priodoleddau ffisegol, cemegol, organoleptig a maethiadol hanfodol y math arferol o sudd y ffrwyth y daw ohono.

**5.** Wrth gynhyrchu'r cynnyrch, caniateir cymysgu sudd ffrwythau wedi ei ddwysáu, neu sudd ffrwythau a sudd ffrwythau wedi ei ddwysáu, â'r canlynol—

(a) piwrî ffrwythau;

(b) piwrî ffrwythau wedi ei ddwysáu; neu

(c) piwrî ffrwythau a phiwrî ffrwythau wedi ei ddwysáu.

**6.** Yn ychwanegol at y cynhwysion a grybwyllir ym mharagraffau 1 a 5, caiff y cynnyrch gynnwys unrhyw rai o'r canlynol—

(a) cynhwysyn ychwanegol awdurdodedig;

(b) sylwedd ychwanegol awdurdodedig;

(c) cyflas, mwydion a chelloedd wedi eu hadfer (neu unrhyw un neu fwy ohonynt) a gafwyd drwy ddull ffisegol addas o'r un rhywogaeth o ffrwyth; a

(d) yn achos sudd tomatos o ddwysfwyd, halen, sbeisys a pherlysiau aromatig.

**7.** Ni chaniateir defnyddio triniaeth, ac eithrio triniaeth awdurdodedig, wrth weithgynhyrchu cynnyrch.

**8.** Mae unrhyw gyfeiriad at lefel Brix yn yr Atodlen hon yn gyfeiriad at lefel Brix sudd heb gynnwys y solidau toddadwy mewn unrhyw gynhwysion ac ychwanegion dewisol a ychwanegir.